

CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN A42





ADAR





Gweler www.carmarthenshirebirds.co.uk ac www.rspb.org.uk/ourwork/science/sobiw.aspx i gael gwybodaeth fwy manwl am y rhywogaethau. Cafwyd caniatâd i ddefnyddio'r lluniau.






YR AMCANION CYFFREDINOL





- Clustnodi safleoedd newydd ar gyfer cynnal arolygon yn y sir.
- Hybu diddordeb gwirfoddolwyr mewn adar.
- Defnyddio rhywogaethau allweddol yn ganolbwynt ar gyfer ymwneud â'r cyhoedd/ysgolion.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r rhywogaethau hynny a'r materion sy'n effeithio arnynt.






* Data o adroddiad Sefyllfa Adar yng Nghymru 2012



Y RHYWOGAETH	FFOTOGRAFF	Y CYNEFIN / SAFLEOEDD YN SIR GAERFYRDDIN	Y MATERION / CAMAU GWEITHREDU GOFYNNOL
<p><i>Alauda arvensis arvensis/scotica</i> Yr Ehedydd</p> <p>© Derek Moore</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Tiroedd amaeth / gweundiroedd a glaswelltiroedd yr iseldir / yr arfordir / yr ucheldiroedd • Mae ehedyddion yn nythwyr ac yn breswylwyr drwy'r flwyddyn sydd â dosbarthiad eang. Hefyd mae ehedyddion yn galw heibio ar eu taith fudol ac yn ymwelwyr yn ystod y gaeaf. • Yn bennaf maent yn magu ar yr ucheldiroedd ac ar hyd yr arfordir. Mae'r boblogaeth yn weddol sefydlog ar hyn o bryd ond mae hynny ar ôl dirywiad mawr. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1995-2010: -15%* • Mae'n debygol taw'r rheswm dros y lleihad yw prinder bwyd yn ystod y gaeaf. • Mae posibiliadau o ran rheoli cynefinoedd ar safleoedd allweddol. Gallai Glastir fod o gymorth.
<p><i>Anthus trivialis</i> Corhedydd y Coed</p> <p>© Derek Moore</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Coetiroedd / ucheldiroedd / glaswelltiroedd a gweundiroedd yr iseldir • Mae'n ymwelydd haf sy'n nythu yn y rhan fwyaf o'r sir. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1995-2010: -26%* • Mae'n debygol taw'r rheswm dros y lleihad yw newidiadau o ran arferion ffermio a rheoli coedwigoedd.
<p><i>Caprimulgus europaeus</i> Y Troellwr Mawr</p> <p>© Dai Rees</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Coetiroedd / glaswelltiroedd a gweundiroedd yr iseldir / ucheldiroedd • Mae'n ymwelydd haf prin sydd ar gynydd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae prinder coetiroedd addas (sef coetiroedd agored a choetiroedd lle mae coed ifanc) yn ffactor sy'n cyfyngu ar allu'r rhywogaeth i nythu. Nid yw ardaloedd helaeth o goed di-fwllch wrth fodd y troellwr mawr. • Mae'r rhywogaeth ar ei hennill yn sgil rheoli coedwigoedd. • Cynhaliwyd arolwg olrhain radio yn 2013 o'r troellwyr mawr yn Fforest Brechfa. Mae ysglyfaethwyr a thywydd gwael wedi effeithio ar y canlyniadau magu.
<p><i>Carduelis cabaret</i> Y Llinos Bengoch Leiaf</p> <p>© Derek Moore</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Coetiroedd • Mae'n nythwr ac yn breswylwyr drwy'r flwyddyn. Planhigfeydd conwydd ifanc yn yr ucheldiroedd yw'r cynefin pennaf. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ar sail data anffurfiol credir bod y rhywogaeth hon yn colli tir. • Prin yw'r data am y rhywogaeth hon – gallai fod yn rhywogaeth addas ar gyfer cynnal arolwg lleol.







<p><i>Carduelis cannabina autochthona/cannabina</i></p> <p>Y Llinos</p> <p>©</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Tiroedd amaeth / gweundiroedd a glaswelltiroedd yr iseldir / yr arfordir / ucheldiroedd / tiroedd llwyd • Mae'n nythwr ac yn breswlydd drwy'r flwyddyn sydd â dosbarthiad eang. Mae heidiau mawr o linoiaid ar hyd yr arfordir yn y gaeaf. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1995-2010: -30%* • Awgryma Atlas 2008–11 fod niferoedd y rhywogaeth hon o bosibl yn sefydlog yn Sir Gaerfyrddin.
<p><i>Coccothraustes coccothraustes</i></p> <p>Y Gylfinbraff</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Coetiroedd / tiroedd amaeth • Er taw prin yw'r cofnodion tybir bod y gylfinbraff yn breswlydd encilgar nad yw pobl yn sylwi arno'n aml. Daw'r cofnodion diweddar o ganol Dyffryn Tywi. Coetiroedd llydanddail neu goetiroedd cymysg sydd wedi cyrraedd eu llawn dwf yw'r hoff gynefinoedd, ac mae'r oestrwydden yn hoff goeden fwydo. Gwelir y rhywogaeth hon yn achlysurol iawn mewn gerddi. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae lleihad wedi bod o ran y niferoedd ym Mhrydain ond nid oes cadarnhad o'r sefyllfa yn Sir Gaerfyrddin. • Prin yw'r wybodaeth am y ffactorau sy'n cyfyngu ar y rhywogaeth ac am y rhesymau dros y lleihad. • Rhywogaeth addas ar gyfer cynnal ymgyrch bosteri?
<p><i>Cuculus canorus</i></p> <p>Y Gog</p> <p>© Hans Kampf</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Tiroedd amaeth / glaswelltiroedd a gweundiroedd yr iseldir / ucheldiroedd / gwlyptiroedd • Mae'n ymwelydd haf eang ei ddsbarthiad sy'n prinhaus. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1995-2010: -34%* • Mae ffrwyth prosiect olrhain gan Ymddiriedolaeth Adareg Prydain yn awgrymu y gallai'r daith fudo a'r tiroedd gaeafu yn Affrica fod yn fwy o ffactorau o ran y lleihad nag a dybid o'r blaen. • Prin yw'r wybodaeth sydd ar gael am y rhywogaeth hon a'i hecolleg – mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil.
<p><i>Dendrocopos minor comminutus</i></p> <p>Y Gnocell Fraith Leiaf</p> <p>© M.J. Clark</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Coetiroedd • Mae'n nythwr ac yn breswlydd lleol encilgar mewn coetiroedd, prysglwyni a manau coediog. 	<ul style="list-style-type: none"> • Yr awgrym ar sail data anffurfiol yw bod y rhywogaeth hon yn colli tir. • Mae'r niferoedd yn lleihau ym Mhrydain ond yn ôl pob golwg mae'r boblogaeth yn dal ei thir yn lleol; y broblem bob amser â'r rhywogaeth hon yw dod o hyd i'r unigolion. • Mae boncyffion gwyw ar eu sefyll mewn coetiroedd yn bwysig i'r rhywogaeth hon.
<p><i>Emberiza citrinella</i></p> <p>Y Bras Melyn</p> <p>© Derek Moore</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Tiroedd amaeth / gweundiroedd a glaswelltiroedd yr iseldir / yr arfordir / yr ucheldiroedd • Nythwr a phreswlydd sydd wedi prinhaus yw'r bras melyn, a chan ei fod yn absennol o rannau helaeth o'r sir tameidiog yw ei ddsbarthiad yma. Fe'i gwelir amlaf ar lethrau sych rhedynog ac ar dir â'r ar yr arfordir. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1995-2010: -40%* • Mae'n debygol taw'r rheswm dros y lleihad yw prinder bwyd ar ffurf hadau yn ystod y gaeaf oherwydd y dirywiad sydd wedi bod o ran ffermio tir â'r. • Gallai Glastir fod o gymorth i'r rhywogaeth hon.


<p><i>Emberiza schoeniclus</i> Bras y Cyrs</p> <p>© M.J. Clark</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Gwlyptiroedd • Mae'n nythwr ac yn breswlydd drwy'r flwyddyn. Mae'r rhywogaeth yn bresennol ledled y sir, ond mae'n fwyaf cyffredin ar wlyptiroedd ac ar borfeydd brwynog ar dir isel ar yr arfordir. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1995-2010: cynnydd.* • Mae'n debygol bod cynnydd o ryw 25%.
<p><i>Larus argentatus argenteus</i> Gwylan y Penwaig</p> <p>© Derek Moore</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Yr arfordir / tiroedd llwyd • Mae'n breswlydd cyffredin. Mae nifer bach o'r gwylanod hyn yn nythu ar glogwyni yng ngorllewin y sir. Mae'r hil goesfelen <i>L. a. michahellis</i> wedi ei chofnodi'n flynyddol yn ystod Gorffennaf/Ionawr yn y blynyddoedd diwethaf a hynny amlaf ym misoedd Gorffennaf/Awst. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1986–2000: +33%* • Mae lleihad cyffredinol wedi bod ym Mhrydain yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Efallai ei bod yn werth ymchwilio i'r niferoedd sy'n nythu ar doeon adeiladau mewn ardaloedd trefol. • Mae nythfa sylweddol ar adeilad Pontrilas yn Llanelli. Mae'r nythfa'n cael ei monitro'n flynyddol.
<p><i>Locustella naevia</i> Y Troellwr Bach</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Gweundiroedd a glaswelltiroedd yr iseldir / gwlyptiroedd / coetiroedd / ucheldiroedd • Mae'n ymwelydd haf ac yn nythwr lleol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ymddengys bod troellwyr bach yn dal eu tir ar hyn o bryd yn y sir. • Mae'n bosibl bod colli cynefinoedd magu a newidiadau yn yr amodau gaeafu yn Affrica yn ffactorau o ran y lleihad.
<p><i>Melanitta nigra</i> Môr-hwyaden Ddu</p> <p>© I. Macho</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Cynefinoedd morol • Mae'r môr-hwyaid hyn yn bresennol ym Mae Caerfyrddin drwy gydol y flwyddyn, ac yn fynych mae'r niferoedd sydd yno yn rhai pwysig yn genedlaethol. Tuedd yr adar hyn yw crynhoi ar hyd y llinell pum gwryd. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1981/82–2006/07: +245%* • Roedd presenoldeb y rhywogaeth hon yn allweddol o ran creu Ardal Gwarchodaeth Arbennig Bae Caerfyrddin. • Caiff y niferoedd eu monitro'n rheolaidd gan Gyfoeth Naturiol Cymru.
<p><i>Motacilla flava flavissima</i> Y Siglen Felen</p> <p>© Derek Moore</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Gwlyptiroedd • Arferai'r siglen felen fod yn ymwelydd haf ac yn nythwr prin. Bellach mae'n ymwelydd prin ar ei daith fudol yn y gwanwyn a'r hydref. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1995–2010: –40%* • Mae cysylltiad rhwng y lleihad yn y niferoedd a draenio tir a newidiadau mewn dulliau amaeth, gan olygu bod llai o anifeiliaid di-asgwrn-cefn yn y pridd.
<p><i>Muscicapa striata</i> Y Gwybedog Mannog</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Coetiroedd / tiroedd amaeth • Mae'n ymwelydd haf ac yn nythwr nad yw'n tynnu sylw ato'i hun ond sydd yn prinhaus. Ei gynefin yw coetiroedd agored, parcdiroedd a gerddi sydd â llwyni trwchus. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1995–2010: lleihad • Mae'n bosibl bod ysglyfaethu nythod a chyfraddau goroesi gwael ymhlith adar ifanc yn brif ffactorau o ran y lleihad. Mae'r lleihad yn fwy amlwg mewn ardaloedd trefol.
<p><i>Numenius arquata</i> Y Gylfinir</p> <p>© M Newton</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Yr arfordir / gweundiroedd yr iseldir / glaswelltiroedd / ucheldiroedd. • Mae'n nythwr lleol ar borfeydd helaeth (porfeydd garw llaith sydd orau gan y gylfinir) ond mae lleihad anferth wedi bod o ran y niferoedd. Hefyd mae gylfinirod yn ymwelwyr ar eu taith fudol ac yn ymwelwyr gaeaf cyffredin ag aberoedd. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1995–2010: –50%* • Mae'n debygol bod prinder cynefin addas ar gyfer nythu a magu cywion. • Mae newidiadau yn yr arferion amaethu a'r patrymau pori yn ffactor - gan beri bod llai o borfeydd llaith a llai o ffermio cymysg. • Gallai Glastir fod o gymorth.
<p><i>Parus montanus kleinschmidti</i> Titw'r Helyg</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Coetiroedd / gwlyptiroedd • Mae'n breswlydd ac yn nythwr. Gall y rhywogaeth hon 	<ul style="list-style-type: none"> • Ar sail arolwg ledled Prydain mae'r niferoedd wedi lleihau. • Nid yw'r lleihad ledled Prydain wedi

		fyw yn yr un cynefinoedd â thitw'r wern, ond hefyd mae'n byw ar dir mwy llaith lle mae mannau nythu ar gael mewn boncyffion pwdr.	digwydd yn lleol. O ystyried bod lleihad wedi bod o ran niferoedd titwod yr helyg a thitwod y wern yng ngweddill y wlad, tybed a oes cyfle i astudio pam nad yw'r rhywogaethau hyn wedi lleihau'n lleol?
<i>Parus palustris palustris/dresseri</i> Titw'r Wern © Derek Moore		<ul style="list-style-type: none"> • Coetiroedd • Mae'n nythwr ac yn breswlydd drwy'r flwyddyn sydd â dosbarthiad eang. Mae'r boblogaeth yn wasgaredig mewn coetiroedd agored a phrysglwyni. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae lleihad wedi bod o ran y niferoedd yn ôl data anffurfiol. • Nid yw'r lleihad ledled Prydain wedi digwydd yn lleol.
<i>Passer domesticus</i> Aderyn y To © B Stewart		<p>Tiroedd amaeth / tiroedd llwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae adar y to yn nythwyr ac yn breswylwyr niferus mewn ardaloedd trefol, pentrefi, cloydd ffermydd ac yn y blaen 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1995–2010: +106%* • Yn ôl pob golwg mae sefyllfa'r rhywogaeth yn weddol ar hyn o bryd.
<i>Passer montanus</i> Golfan y Mynydd © M.J. Clark		<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun ar wahân (Gwlyptiroedd) • Mae'n nythwr ac yn breswlydd prin, sydd ond yn bresennol yng nghanol Dyffryn Tywi ac mewn ardaloedd arfordirol yng ngorllewin y sir lle mae tir âr. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae lleihad wedi bod o ran y niferoedd yn ôl data anffurfiol. • Mae prinder hadau yn y gaeaf a'r gwanwyn yn ffactor sy'n cyfyngu ar y rhywogaeth hon. • Ers rhai blynyddoedd mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn cyllido prosiect bwydo yn y gaeaf sy'n cael ei gynnal gan wirfoddolwyr a hynny yn Nyffryn Tywi, sy'n un o'r cadarnleoedd yng Nghymru. • Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy ddarllen: Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin ar gyfer Golfanod y Mynydd
<i>Perdix perdix</i> Petrisen © Derek Moore		<ul style="list-style-type: none"> • Tiroedd amaeth • Prin. Mae'n debygol bod a wnelo'r cofnodion diweddaraf ag adar a fagwyd gan bobl ac yna eu rhyddhau. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae lleihad wedi bod o ran y niferoedd yn ôl data anffurfiol. • Mae'n debygol bod prinder pryfed a hadau ar ddiwedd yr haf ac yn y gaeaf yn ffactor. • Rhyddhawyd petris yn ardal Cydweli yn ddiweddar, ond pryd mae adar 'a ryddhawyd' yn troi'n adar 'gwyllt'?
<i>Phylloscopus sibilatrix</i> Telor y Coed		<ul style="list-style-type: none"> • Coetiroedd • Mae'n ymwelydd haf sy'n nythu yma. Mae'n fwyaf cyffredin mewn coetiroedd yn yr ucheldiroedd. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1995–2010: lleihad • Mae lleihad anesboniadwy wedi bod o ran y niferoedd ledled Ewrop - mae'n bosibl bod a wnelo'r lleihad â'r tiroedd gaeafu yn Affrica.

<p><i>Prunella modularis occidentalis</i> Llwyd y Gwrych</p> <p>© Derek Moore</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Tiroedd amaeth / coetiroedd / tiroedd llwyd • Mae'n breswlydd ac yn nythwr cyffredin ac eang ei ddsbarthiad. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1995–2010: +30%* • Mae lleihad wedi bod ledled Prydain ond mae'r niferoedd yn sefydlog yn lleol - mae'n werth rhoi sylw i'r ymddygiad aml-wrol.
<p><i>Pyrrhula pyrrhula pileata</i> Coch y Berllan</p> <p>© D. Moore</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Perthi / coetiroedd • Er ei fod yn aderynencilgar mae'n breswlydd ac yn nythwr eang ei ddsbarthiad mewn prysglwyni, perllannau a pherthi trwchus. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1995–2010: +8%* • Ymddengys bod y rhywogaeth yn sefydlog yn lleol.
<p><i>Sturnus vulgaris vulgaris</i> Y Ddrudwen</p> <p>© D. Moore</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Gwlyptiroedd / coetiroedd / tiroedd amaeth / tiroedd llwyd • Mae'n breswlydd sy'n prinhaus ac yn ymwelydd gaeaf niferus. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1995–2010: -67%* • Mae'n bosibl bod y lleihad o ran niferoedd y nythwyr i'w briodoli i'r newidiadau o ran trefn rheoli glaswelltiroedd gan beri bod llai o anifeiliaid di-asgwrn-cefn ar gael - yn ogystal mae'r goroesiad gwael ymysg adar ifanc yn ychwanegu at y lleihad ond ni wyddys beth sy'n achosi hynny.
<p><i>Turdus philomelos clarkei</i> Y Fronfraith</p> <p>© Derek Moore</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Coetiroedd / tiroedd amaeth / tiroedd llwyd • Mae'n nythwr ac yn breswlydd eang ei ddsbarthiad. Mae nifer bychan o adar yn mudo yma yn y gaeaf. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1995–2010: +17%* • Efallai bod cysylltiad rhwng hyn a bod digonedd o folysgiaid a phryfed ar gael yn ystod y gaeaf yn sgil bod y pridd yn fwy llaith. • Ymddengys bod cysylltiad rhwng rheoli glaswelltiroedd a draenio tir ar y naill llaw a llwyddiant magu ar y llaw arall. Mae'n bosibl bod y cynnydd yn gysylltiedig â'r ffaith fod rhagor o goetiroedd / bod coetiroedd yn cyrraedd eu llawn dwf.
<p><i>Turdus torquatus</i> Mwyalchen y Mynydd</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Ucheldiroedd • Mae'n ymwelydd haf prin â'r creigleoedd yn ucheldiroedd gogledd-ddwyrain y sir. Ceir cofnodion achlysurol ar yr arfordir o adar ar eu taith fudol. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1972–99: -51%* • Ymddengys bod yr ardaloedd nythu yn crebachu i dir uwch, yn enwedig lle mae trwch o rug. Posibilrwydd yn unig yw bod y rhywogaeth hon yn nythu yn Sir Gaerfyrddin.
<p><i>Vanellus vanellus</i> Y Gornchwigen</p> <p>© Derek Moore</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Yr arfordir / tiroedd llwyd / gwlyptiroedd / tiroedd amaeth • Bellach mae cornchwiglod yn nythwyr prin iawn, a hynny ar yr arfordir yn bennaf. Maent yn ymwelwyr rheolaidd ar eu taith fudol ac yn ymwelwyr gaeaf gan ffurfio heidiau mawr yn ystod tywydd oer. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1987–98: -77%* • Nid oes arolwg wedi ei gynnal yn ddiweddar ond mae'n sicr bod lleihad pellach wedi bod. • Gellir dweud bron yn sicr fod gwella glaswelltiroedd, gan beri bod prinder bwyd a mwy o gyfle i ysglyfaethwyr, yn gysylltiedig â'r lleihad.

<p><i>Charadrius hiaticula</i> Y Cwtiad Torchog</p> <p>© Derek Moore</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Dyfroedd croyw / tiroedd llwyd • Mae cwtiaid torchog yn nythu ar draethau ac mewn mannau ar hyd yr arfordir lle mae aflonyddu wedi bod ar wyneb y ddaear. Mae adar ar eu taith fudol yn crynhoi ym Mhorth Tywyn, Cefn Sidan, yng nghyffiniau'r Bertwn, a Machynys, lle mae rhywfaint o gwtiaid torchog yn gaeafu. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae llai o gwtiaid torchog yn gaeafu yma erbyn hyn gan fod mwy ohonynt, yn sgil y gaeafau mwy mwyn, yn gaeafu bellach yng ngogledd a dwyrain Cymru. • Ymddengys bod poblogaeth fagu fach ond sefydlog yn Sir Gaerfyrddin. • Mae'n bosibl bod ymosodiadau gan ysglyfaethwyr a tharfu gan bobl yn ffactorau hefyd.
<p><i>Circus cyaneus</i> Y Bod Tinwen</p> <p>© Andy Hay (rspb-images.com)</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Gwlyptiroedd / yr arfordir • Mae'r adar ysglyfaethus hyn yn ymwelwyr rheolaidd yn ystod y gaeaf. Maent yn cael eu cofnodi amlaf ar hyd yr arfordir, ond maent hefyd yn ymweld ag ardaloedd eraill lle mae digonedd o lystyfiant lled-naturiol garw. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1998–2010: +111%* • Mae'r niferoedd wedi cynyddu yng Nghymru ers 1998 - mae'n debygol taw rhoi'r gorau i erlyn y rhywogaeth sydd i gyfrif am hynny. • Yn Sir Gaerfyrddin mae nifer y cofnodion yn llai nag yr oeddynt yn yr 1990au (<i>Carmarthenshire Birds</i> 2012) • Wrth i fwyfwy o adar nythu yn y siroedd cyfagos y gobaith yw y bydd mwyfwy o adar yn symud i Sir Gaerfyrddin; ymddengys bod coedwigoedd ifanc yn gynefin ffafriol. • Yn y gaeaf mae'r adar ysglyfaethus hyn yn hela hefyd ar dir amaeth agored ac yn bwydo ar y mân adar a mamaliaid niferus mewn glaswelltiroedd, ffosydd ac ymylon caeau.

<p><i>alco tinnunculus</i> Y Cudyll Coch</p> <p>© Derek Moore</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Tiroedd amaeth / gweundiroedd a glaswelltiroedd yr iseldir / tiroedd llwyd • Bellach mae'r rhywogaeth yn nythwr preswyl prin sydd â dosbarthiad lleol iawn yn y sir. Mae cudyllod coch ar eu mwyafrif yn y manau lle mae porfeydd garw neu weundiroedd yn cynnal y prif rywogaethau sy'n ysglyfaeth iddynt. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1995–2010: lleihad. • Gallai'r lleihad yn niferoedd mamaliaid bychain fod yn ffactor. • Mae'n debygol taw ffactor arall yw bod cudyllod coch yn ysglyfaeth i weilch marth. • Gallai Glastir fod o gymorth.
<p><i>Ficedula hypoleuca</i> Y Gwybedog Brith</p> <p>© Derek Moore</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Coetiroedd • Mae'n ymwelydd haf sy'n nythu yma ac sydd fwyaf cyffredin mewn coetiroedd yn yr ucheldiroedd, ond sydd yn ddiweddar wedi ehangu ei diriogaeth i gynnwys bron yr holl goetiroedd hyd at yr arfordir. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1995–2010: lleihad. • Gosodwyd blychau nythu yn y sir. • Mae'n debygol bod a wnelo'r lleihad â newidiadau o ran adegau magu'r rhywogaethau y mae'r gwybedogion brith yn bwydo arnynt, a hynny o bosibl yn sgil newidiadau yn yr hinsawdd.
<p><i>Larus ridibundus</i> Yr Wylan Benddu</p> <p>© Derek Moore</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Yr arfordir • Rhwng misoedd Gorffennaf a Mawrth mae gwylanod penddu yn ymwelwyr niferus nad ydynt yn nythu yn y sir - ac mae niferoedd llai yn ymweld â'r sir yn ystod y misoedd eraill. Mae'r wylan hon yn fwy cyffredin ar hyd yr arfordir. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1986–2000: -34% • Mae poblogaeth fagu gymharol iach ym Mhenclacwydd.
<p><i>Limosa lapponica</i> Y Rhostog Gynffonfraith</p> <p>© Derek Moore</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Yr arfordir • Mae'r adar hyn yn ymwelwyr rheolaidd ar eu taith fudol ac yn ymwelwyr gaeaf â'r arfordir. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1995–2010: -76% • Mae'r rhywogaeth wedi ei chofnodi drwy gydol y flwyddyn yn Sir Gaerfyrddin ond bod y niferoedd yn ystod yr haf yn fach. • Mae'n bosibl bod y lleihad o ran y niferoedd i'w briodoli i newidiadau o ran dosbarthiad y rhywogaeth yn ystod y gaeaf mewn ymateb i newid yn yr hinsawdd.
<p><i>Pluvialis apricaria</i> Y Cwtiad Aur</p> <p>© B. Stewart</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Ucheldiroedd / yr arfordir • Mae cwtiaid aur yn nythwyr prin yn yr ucheldiroedd, ac mae nifer yn teithio trwy'r sir ar eu taith fudol yn y gwanwyn. Mae niferoedd helaeth yn gaeafu o amgylch Bae Caerfyrddin. 	<ul style="list-style-type: none"> • % y newid yng Nghymru 1982–2007: -83% • Mae'n sicr bod cysylltiad rhwng nythu a rheoli rhostiroedd mewn modd addas – gorburi/tanburi coryydd. Er eu bod yn lleihau, mae'r niferoedd yn ystod y gaeaf yn dal i fod yn fawr.
<p><i>Tyto alba</i>[†] Y Dylluan Went</p> <p>© M. Newton</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun ar wahân (Tiroedd amaeth / gweundiroedd a glaswelltiroedd yr iseldir) • Mae'n rhywogaeth breswyl sy'n nythu'n lleol, ond mae'r niferoedd wedi lleihau oherwydd colli cynefinoedd ac oherwydd effeithiau plaladdwyr. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae ymgyrch cardiau post ar gyfer cofnodi tylluanod gwynion wedi bod ar waith ers cryn amser. • Gosodwyd blychau nythu yn y sir drwy brosiect Tywi Afon yr Oesoedd a thrwy ddefnyddio cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru. • Cynhelir arolygon o ran ceisiadau cynllunio a allai effeithio ar dylluanod gwynion. • Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy ddarllen: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin ynghylch y Dylluan Wen • Mae bron yn sicr bod cysylltiad rhwng y lleihad ar y naill law a gwella

			glaswelltiroedd ac amaethu dwys ar y llaw arall.
<p><i>Charadrius dubius</i>†</p> <p>Y Cwtiad Torchog Lleiaf†</p> <p>© D. Moore</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun ar wahân (Dyfroedd croyw) • Ymwelydd haf ydyw sy'n nythu ar y gro ar lannau afonydd Tywi, Cothi a Bran. Mae'r niferoedd a'r dosbarthiad yn dal i gynyddu. Mae cofnodion achlysurol ar yr arfordir o'r adar hyn ar eu taith fudol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gwaith arolygu blynyddol anffurfiol yn cael ei wneud ar hyd glannau Tywi. Mae glaw trwm yn ystod y tymor nythu yn gallu golchi nythod ymaith ac mae damsang gan bysgotwyr/gwartheg yn gallu bod yn broblem. • Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy ddarllen: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin ynghylch y Cwtiad Torchog Lleiaf • Yn Sir Gaerfyrddin y bu i ryw 8% o boblogaeth Prydain fagu cywion yn 2010. <i>British Birds</i> 106, 2013.

† Rhywogaeth blaenoriaeth leol